

Cofnodion y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd yn
Neuadd y Dref, Ffordd Wynnstey, Rhuthun, nos Lun, 3 Rhagfyr 2018 am 7:30p.m.

PRESENNOL: Y Cyngorwyr Keiran Allsopp-Robson, Jim Bryan, Gavin Harris, Menna Jones, Anne Roberts, Dave Snape ac Emrys Wynne.

58. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cyngorwyr Ian Lewney.

59. DATGAN BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

60. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

PENDERFYNWYD: cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2018 yn gywir.

61. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

62. TORRI GLASWELLT YN 2019

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried gofynion torri glaswellt y Cyngor Tref yn dilyn y cyflwyniad yn y cyfarfod blaenorol. Awgrymwyd y dylid trafod hyn ymhellach gyda swyddogion Cyngor Sir Ddinbych. Cyfeiriodd yr aelodau at y torri glaswellt ym Mynwent Llanrhydd, nad oedd i'r safon a ddisgwyliid gan y rhai'n ymweld â'r fynwent.

PENDERFYNWYD: ysgrifennu llythyr at Gyngor Sir Ddinbych ynghylch y torri glaswellt ym Mynwent Llanrhydd a chysylltu gyda chontractwr torri glaswellt cyfredol y Cyngor Tref i'w hysbysu am y trafodaethau ynghylch y gofynion torri glaswellt.

63. AMCANGYFRIFON ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried yr amcangyfrifon ariannol yng nghyswllt gwariant y Pwyllgor yn 2019-20.

PENDERFYNWYD: cynnal y gwariant ar yr un lefel â'r flwyddyn flaenorol, ar gyfanswm o £44,000.

64. GRŴP TREF TACLUS

Cadarnhaodd y Cyngorwyr Gavin Harris y byddai sesiwn nesaf y Grŵp ddydd Sul, 16 Rhagfyr 2018, 2pm tan 4pm. Roedd tua 60 o aelodau ar hyn o bryd.

PENDERFYNWYD: nodi'r wybodaeth.

65. BAW CI YNG NGHAE DDÔL

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y problemau sy'n parhau yng Nghae Ddôl. Cyfeiriodd yr aelodau at y ffaith nad oes gweithredu gorfodi mwyach ar ôl i gytundeb Cyngor Sir Ddinbych gyda Kingdom Security ddod i ben a bod pobl yn cymryd mantais o hynny. Awgrymwyd ffensiō'r cae bach fel bod perchnogion yn medru gadael eu cŵn oddi ar eu tennyn.

PENDERFYNWYD: ysgrifennu llythyr at Gyngor Sir Ddinbych yn mynegi pryderon am y diffyg gweithredu gorfodi.

66. LLWYBR CASTELL RHUTHUN

Derbyniodd yr aelodau ddiweddariad gan y Cyngorwyr Gavin Harris ynghylch y llwybr arfaethedig gan Ymddiriedolaeth Cadwraeth Castell Rhuthun, a oedd yn bwriadu gwneud cais i'r gronfa treth tirlenwi i gyllido'r prosiect. Awgrymwyd bod angen edrych ar y llwybrau troed yng Nghae Ddôl sy'n arwain at y pontydd gan eu bod yn tueddu mynd yn fwdlyd iawn.

PENDERFYNWYD: nodi'r wybodaeth.

67. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD: *mai dyddiad y cyfarfod nesaf y Pwyllgor fyddai nos Lun, 7 Ionawr 2019 am 7:30pm.*